ANWYL SYR.—Dyoddefais am ddeng mlynedd ar ugain oddiwrth glefyd yr afu, annhreuliad bwyd, blas annymunol yn y genau yn y bore, poen parhaus yn y stumog a'r ymysgaroedd, ac yn aml ar ol cymeryd bwyd, dyoddefais boen am oriau. Weithiau, ar ol cymeryd bwyd, yr oeddwn yn ei gael i fyny. Dyoddefais gan wynt, curiad y galon, gwendid, a nervousness. Dyoddefais hefyd gan iselder ysbryd, poen a hurtwch yn y pen, a phoen a stwr ny y clustiau, nes byddwn yn fyddar ar brydiau ; hefyd, coll cof, coll chwaeth at ymborth, poen yn y cefn, yr ochrau, a rhwng yr ysgwyddau, a pheswch, a piles, a gravel. Yr oeddwn wedi myned mor wan fel nas gallaswn gerdded. Yr oeddwn yn gor fod cadw fy ngwely am ddyddiau. Nis gallaswn gysgu'r nos, eithr ymdroi yn barhaus, a breuddwydia, ac yr oeddwn yn boen i fy hun. Yr oeddwn wedi profi amryw feddygon yn Llundain, ac wedi bod mewn pump *hospital*, heb dderbyn dim lles, eithr yn gwaethygu yn ddyddiol. Cyngorodd y meddyg diweddaf y bum gydag ef fi i fyned atoch chwi. Yr oeddech wedi gwella chwaer y wraig o'r

un dolur. Mewn llai na thair wythnos wedi ymgynghori â chwi, ce's wellhad perffaith. Gosodasoch fi dan driniaeth y medical apparatus, a rhoddasoch fodion a chynggor i mi.

Yr eiddoch yn ddiolchgar,
Dr. J. L. Prichard. WILLIAM EDWARDS.

Pum' mlynedd yn ol daeth boneddiges o Bontypridd i ymgynghori â mi. Dyoddefodd am ugain mlynedd gan wynt, poen yn y stumog, pen a'r cefn, a gwendid, ac isel ysbryd. Cafodd wellhad genyf mewn pythefnos.

Daeth boneddwr o Coed-duon, sir Fynwy, i gael advice genyf chwe' mlynedd yn ol: yr oedd wedi dyoddef deg mlynedd gan ddiffyg treuliad bwyd, gwynt, hurtwch, a churiad y galon. Cafodd wellhad genyf mewn pythefnos.

—o—
DIFFYG ANADL PESWCH, BRONCHITIS,
ASTHMA, GWENDID, A PHOEN YN Y
STUMOG A'R PEN, DOLUR Y GALON.

WIND St., ABERTAWE, Mai 4, 1870.

ANWYL SYR,—Dyoddefais oddiwrth ddiffyg anadl peswch, a *bronchitis*. Nis gallaswn orwedd, ac nid oeddwn wedi bod mewn gwely am ugain mlynedd; nis gallaswn eistedd ond mewn cadair-freiciau, a dyoddefais oddiwrth fyrdra anadl, peswch, poeriad, curiad y galon, wendid mawr, nervousness, iselder ysbryd, gwynt, poen, a gwendid yn y stumog, poen yn y ddwyfron, yr ochrau, y cefn, a rhwng yr ysgwyddau. Dyoddefais hefyd oddiwrth glefyd yr afu, ac yn aml dyoddefais boen cyn ac wedi bwyta bwyd. Dyheuwn am anadl am oriau, ac ofnwn weithiau fy mod yn tynu yr anadliad olaf. Ofnai fy nghyfeillion y buaswn yn marw yn eu dwylaw. Ar un adeg dyoddefais oddiwrth chwydd yn y traed, y

coluddion, y dwylaw, a'r wyneb. Dywedwyd mai dropsi oedd arnaf. Yr oeddwn wedi treio deuddeg o feddygon, ond ni wnaethant ddim lles i mi. Yr oeddwn mewn cyflwr marwol pan welsoch fi. Ar ol cymeryd y dose cyntaf o'ch moddion chwi, aethum i'r gwely, a chysgais trwy'r nos. Nid oeddwn wedi bod mewn gwely am ugain mlynedd cyn y noswaith hono. Wrth ddilyn eich cyngor, a chymeryd eich moddion, ce's wellhad perffaith, pum' mlynedd yn ol. Yr oeddwn yn dri ugain a phymtheg mlwydd oed. Hir oes ac iechyd i chwi i wella miloedd eto. Cyngorwn bod un sydd yn dyoddef poen neu afiechyd i fyned atoch. Chwi fyddwch yn sicr o'u gwella.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

Dr. J. L. Prichard.


DAVID THOMAS.

Chwe' mlynedd yn ol, daeth boneddiges o Bontypool, sir Fynwy, i ymgynghori â mi; yr oedd wedi dyoddef am bymtheg mlynedd gan beswch, asthma, bronchitis, y darfodedigaeth, a diffyg anadl. Yr oedd yn methu cysgu'r nos; hefyd, yr oedd yn dyoddef poen yn ei phen, y cefn, a'r ymysgaroedd; gwendid, iselder ysbryd, coll archwaeth at fwyd, a phoen cyn ac wedi bwyta bwyd. Gosodais hi dan driniaeth y medical apparatus, a rhoddais foddion a chynghor iddi: gwnaeth y dogn cyntaf o'r moddion ddaioni iddi. Cafodd wellhad mewn pythefnos.

Daeth boneddwr o Benybont ataf i gael *advice*, dyoddefodd ddeng mlynedd gan beswch, diffyg anadl, poen a gwendid. Cafodd wellhad mewn tair wythnos.


Y mae yn anmhosibl cyfrif y nifer dirfawr o fywydau a gollwyd ac a gollir yn ddyddiol mewn canlyniad i'r dyb gyfeiliornus a nieweidiol fod clefydau neillduol yn anfeddyginaethol. Y mae cynydd gwyddoriaeth feddygol wedi gwneud llawer i symud ymaith opin-

iynau cyfeiliornus, yn gymaint a'i fod wedi ei broti gan anianeg *pathological anatomy*, &c., a thrwy dystiolaeth lwyr fodhaol y gellir, fel rheol, atal ymdeithiad darfodedigaeth, diffyg anadl, anhwylderau yr afu, y cylla, y galon, y gwynegon, a chlefydau ereill, a'u gwella gyda chymaint o sicrwydd ag unrhyw glefydau ereill ag y mae dynoliaeth yn agored iddynt.



WYDD YN Y GWDDF A'R PEN, WEN, &c.

Tair blynedd yn ol daeth boneddwr o Aberhonddu ataf i gael advice. Yr oedd yn dyoddef gan lawnder a wydd yn y gwddf a'r llwnc. Yr oedd llewndid yn y gwddf a'r llwnc; yr oedd yn rhoddi poen i lynceu bwyd, ac i siarad, a phlegm yn casglu yn ei llwnc; yr oedd ar brydiau yn colli ei lais. Yn ddiweddar yr oedd yr wydd yn cynyddu, ac yn roddi mwy o boen i lynceu ac i siarad. Yr oedd wedi deall mai *tumour a wen* ydoedd. Yr oedd wedi treio llawer o ddoctor-laid cyn dyfod ataf. Gosodais ef dan driniaeth y *medical apparatus*, cafodd moddion ac advice genyf. Cafodd wellhad mewn amser byr.



CYMALAU ANYSTWYTH, CLEFYD A PHOEN YN Y CYMALAU, YSIGIADAU, CHWYDD GWYN, GWYNNEGON YN Y CYMALAU A'R AELODAU (*Rheumatic*).

Y mae y clefydau a grybwyllyd yn gofyn medr mwyaf y Llawfeddyg i'w trin yn briodol. Yr wyf er ys blynnyddau wedi, ac yn parhau i wella yn ddyddiol glefydau o'ar natur uchod ar bersonau o bob oed, ac o bob rhan o'r byd. Cyngorwn y cleifion hyny a fwriedant ddyfod ataf, i ddyfod yn ddioedi.

Y LLYGAD.—DALLINEB.

Y mae y llygad yn ermig cymhlethedig iawn. Dengysei gyfansoddiad a'iallu ddoethinab y Creawdwr. Y mae pob person sydd wedi ei amddifadu o'i olwg, wedi ei gau allan rhag mwynhau lluaws o fendithion a dedwyddwch y byd hwn; a diau mai y golled fwyaf ydyw a ddichon ddygwdd i ddyn neu ddynes. Y mae'r llygad yn agored i yn nghylch deunaw o anhwylderau; enyniad, dylifiad, *glaucoma*, *amaurosis*, &c.

Daeth boneddwr o Bryste ataf i ymofyn cyngor, rai blynnyddau yn ol, i ymgynghori â mi yn nghylch ei ddallineb: yr oedd wedi bod gyda meddygon yn Llundai a Ffrainc, ac mewn chwech hospital. Dywedodd un meddyg wrtho mai *cataract* oedd yr anhwylder, a bu dan *operation* i'r perwyl hwnw. Un arall a ddywedodd mai enyniad oedd yr achos; arall, *glaucoma*; arall, *amaurosis*. Bu yn ddall am ugain mlynedd, ac yr oedd felly pan ymgynghorodd â mi. Nis gallasai ei achos fod yn waeth nag ydoedd. Gwnaethum *operation* ar y llygad, ond ni ddaeth yn well; yna gosodais ef o dan driniaeth y medical apparatus; cynghorais ef i gymeryd y moddion a roddais iddo, ac i ddilyn fy nghyfarwyddiadau. Ymadferodd yn fuan, ac yn mhen pythefnos gallai ddarllen ei Feibl, yr hyn nad allodd wneud am ugain mlynedd. Gwelais ef rai misoedd yn ol, ac yr oedd golygon y ddua lygad yn berffaith. Medrai ddarllen y Beibl heb wydrau, a dilynai ei waith yn gyson. Gwellhëais ef chwe' mlynedd yn ol; yr oedd y pryd hwnw yn dri ugain a phump oed.

Daeth boneddiges o Risca, sir Fynwy, i ymgynghori â mi chwe' mlynedd yn ol: yr oedd wedi bod yn ddall am ddeng mlynedd. Gosodais hi dan fy nhriniaeth; cafodd wellhad. Yr oedd yn darllen ei Beibl mewn ychydig wythnosau. Yr wyf wedi gwella caunoedd o bobl dall.

Y GLUST, BYDDARDOD.

Pum' mlynedd yn ol daeth boneddwr o Gaerdydd ataf i gael advice; bu yn fyddar am ddeugain mlynedd yn y ddau glust; cafodd *scarlet fever* pan yn blentyn. Bu humwr neu fater yn rhedeg o'r ddau glust am ddeugain mlynedd. Cafodd feddyginaethau genyf, ac advice, hefyd gosodais fodion yn ei glustiau. Cafodd wellhad perffaith genyf mewn amser byr. Gall glywed y watch ugain troedfedd o bellder.

Tair blynedd yn ol daeth boneddiges o Abertawe ataf i gael advice. Bu yn fyddar am ddeng mlynedd ar ugain. Yr oedd swn a stwr parhaus yn ei phen a'i chlustiau. Yr oedd yn *wan* a *nervous*. Gallai glywed rhyw un yn siarad yn ei gwyneb, neu ei chlust, ond nid allai glywed beth oedd pobl arall yn siarad â'u gilydd. Gosodais hi dan driniaeth y *medical apparatus*, roddais fodion at eu chlustiau, ac advice iddi. Cafodd wellhad perffaith mewn amser byr.

Dwy flynedd yn ol daeth boneddwr o Bontypool ataf i gael advice. Bu yn fyddar am ugain mlynedd. Pob tro y cafodd anwyd yr oedd yn fwy byddar, a stwr yn ei ben a'i glustiau. Pan ddaeth ataf, yr oedd yn fyddar iawn. Yr oedd wedi treio pedair hospital yn Llundain a Ffrainc cyn dyfod ataf. Agorais yr *Eustachian tubes*, a gosodais fodion at ei glustiau. Cafodd wellhad cyn myned o fy nhŷ. Mewn haner awr yr oedd yn clywed y watch ugain troedfedd o bellder.

Yr wyf wedi gwella canoedd o bobl fyddar. Yr wyf wedi gwella llawer mewn deng mynud, drwy agor yr *Eustachian tubes*, &c., a moddion ereill; a chyn myned o fy nhŷ yr oeddent yn clywed y seiniau manylaf.

GWYNNEGON, RHEUMATIC, A'R GOUT.

OXFORD ST., LLUNDAIN, *Gorphenaf* 8, 1870.

ANWYL SYR,—Yr oeddwn wedi ymgynghori â'r meddygon enwocaf yn Llundain, ac wedi bod mewn deg hospital. Dywedodd un meddyg mai y gowt oedd arnaf. Ni wnaethant unrhyw les i mi, eithr gwaethygu yn ddyddiol. Yr oedd y poenau yn angerddol a pharhaus, yn fy mreichiau a'm dwylaw; ac yr oedd y cymalau a'r bysedd yn ddiddefnydd i mi, ac nis gallwn ddefnyddio fy nwylaw i borthi fy hun; poen a gwendid yn yr ysgwyddau, morddwyd yd, penliniau, cefn, a'r bigyrnau, a phoen llosgedig yn yr ymystgaroedd, a rhanau ereill o'r corff. Yr oedd y traed a'r dwylaw mor ddiwasanaeth, prin gallwn symud y naill na'r llall, ac yr oedd y poen dirfawr a ddyoddefais wedi gwyrdroi rhai o'r esgyrn. Nis gallaswn gysgu, na gwisgo fy hun, ac yr oeddwn yn wan iawn. Cymerais y moddion a'r *applications* a gefais genych chwi; dilynais eich cyfarwyddiadau chwi, (hefyd aethum o dan driniaeth eich medical apparatus chwi). Cyn pen haner awr gallaswn gerdded yn ddisgloff. Y bore nesaf gallaswn wisgo fy hun, yr hyn na wnaethum am ugain mlynedd. Ar ol cymeryd y dos cyntaf o'ch moddion chwi ni theimlais unrhyw boen, a chefais berffaith wellhad mewn pedair wythnos. Nid wyf wedi colli noswaith o gwsg, na theimlo unrhyw boen oddair hyny. Y mae y Parch. J. Wilkins yn rhoddi ei ddiolch i chwi am y gwellhad wnaethoch arno ef.

Yr eiddoch yn serchus,

Dr. J. L. Prichard.

PHILLIP PRICE.

Dygwyd dyn ieuanc ataf mewn cart o Aberdâr rai blynnyddau yn ol: yr oedd wedi bod yn dyoddef am flynyddau oddiwrth boenau y gwynnegon, drwy ei holl gorff, a dirywiodd hyd onid oedd yn groen ac esgyrn. Yr oedd mewn cyflwr gresynus, a gwaethygai yn ddyddiol: yr oedd wedi treio amryw feddygon, a

chynghorodd y meddyg diweddaf ef i ddyfod dan fy nhriniaeth i. Dygwyd ef ataf ar ddydd Mawrth; ond ar y diwrnod canlynol, hyny yw, yn mhen pedair awr ar ugain, cerddodd tua thre' dros fynydd Aberdâr, pellder o yn agos bedair milldir. Gosodais ef dan driniaeth y medical apparatus; cynghorais ef i ddefnyddio fy nghyfferi (moddion) a'r *applications*, gan ddilyn fy nghyfarwyddiadau. Gwellhawyd ef mewn pythefnos, ac y mae yn dilyn ei waith byth oddiar hyny: bu yn ymboeni am ddeuddeng mlynedd; nis gallasai wisgo ei hun pan ddygwyd ef ataf, na gosod ymborth yn ei enau. Gwellhëais ef ddeng mlynedd yn ol.

Pum' mlynedd yn ol daeth boneddiges o Abergavenny, sir Fynwy, ataf i gael *advice*; dyoddefodd am bumtheg mlynedd gan wynegon a rheumatic. Cafodd wellhad genyf mewn ychydig wythnosau.

—o—

D R O P S I.

ST. MARY ST., CAERDYDD, Awst 7, 1870.

ANWYL SYR.—Cyn dyfod i ymgynghori â chwi, yr oeddwn wedi treio tri-ar-ddeg o feddygon, heb dderbyn dim lleshad; ond yr oeddwn yn gwaethygu yn ddyddiol. Dyoddefais am flynyddau oddiwrth y dropsi, yr oedd y traed a'r dwylaw, y wyneb a'r corff ar fyrstio: nis gallwn gael gwared o ond ychydig ddwfr; yr oedd yr anadl yn fyr iawn, ac nis gallwn orwedd yn y gwely. Dyoddefais hefyd oddiwrth guriad y galon; ces fy *nhappo* unwaith yn yr hospital yn Llundain, ond yr oeddwn yn chwyddo yn fwy nag erioed mewn ychydig ddiwrnodau. Ce's foddion genych, ac aethum dan driniaeth eich medical apparatus, a dilynais eich cyfarwyddyd. Addawsoch wneud pob peth yn eich gallu, a phob peth a allai medr a chelfyddyd wneud. Cynghorwyd fi i ddyfod atoch gan gymydog o Caerdydd, a wellhawyd genych chwi o'r un clefyd. Gan eich bod wedi gwella fy nghymydog

credwn y galch fy ngwella inau. Gwnaeth y dose cyntaf o'ch moddion les i mi, ac mewn ychydig wythnosau yr oeddwn yn hollol iach.

—o—

Yr eiddoch yn barchus,
Dr. J. L. Prichard. RACHEL JOHNSON.

MANWYNION, CLWYFAU, TARDDIANT AR Y CROEN A'R WYNEB, AFIECHYD Y GWAED.

Daeth boneddwr ataf o Gasnewydd-ar-Wysg chwe' mlynedd yn ol i ymofyn cynghor: yr oedd wedi bod yn dyoddef am ugain mlynedd oddiwrth fanwynion, scyrfi, a chlwyfau o gylch y gwddf, y corff, a'r gluniau, tarddiant ar y wyneb, a chwyddiad y *glands*, tra nad oedd modfedd o groen iachus arno. Yr oedd wedi treio meddygon yn Llundain, Ffrainc, a baddonau ar y Cyfandir, ond ni wnaethant ddim lles iddo, a gwaethygai yn barhaus; ond mewn llai na mis wedi iddo ddyfod dan fy nhriniaeth i, gwellhawyd ef. Gosodais ef dan driniaeth y medical apparatus, a chynghorais ef i gymeryd fy nghyfferi (moddion) a dilyn fy nghyfarwyddiadau. Gwellhawyd ef chwe' mlynedd yn ol.

Deuddeg mlynedd yn ol daeth boneddiges o sir Benfro ataf i gael gwellhad; yr oedd wedi dyoddef am ddeng mlynedd o'r doluriau uchod; hefyd poen yn y cylla, pen, a'r cefn; gwendid a phoen rheumatic trwy ei chymalau, iselder ysbryd, peswch, a nervousness, a chlwyfau dros ei chorff. Cynghorais hi i fyned o dan fy nhriniaeth, a rhoddais foddion ac advice iddi. Cafodd wellhad perffaith genyf mewn amser byr.

POEN YN Y CEFN, LUMBAGO, SCIATICA, PILES, GRAVEL, A RHEUMATIC, GWENDID A PHOEN YN Y BREICHLIAU, A'R CLUNIAU.

—o—

WATTON, ABERHONDDU, Awst 2, 1870.
ANWYL SYR,—Dyoddefais am bum' mlyned ar ugain

gan rheumatic, poen yn y cefn, a'r lwynau, lumbago, sciatica, piles, gravel, a dolur yr arenau. Dyoddefais boen mawr wrth wneud dwfr; defnyddiais ffyn baglau am un mlynedd ar ugain; ac yr oedd y poen a ddyoddefais yn fy nghefn, borddwyd yd, ymysgaroedd, a'r cluniau yn angerddol. Yr oeddwn mewn poen ddydd a nos. Treiais amryw feddygon, ond gwae-thygais yn ddyddiol. Ar ol myned dan eich triniaeth gyda'r medical apparatus, ac ar ol cymeryd y dose cyntaf o'ch moddion chwi, yr oeddwn yn rhydd o boen mewn ugain mynud, a cherddais allan o'ch ty yn mhen haner awr heb ffyn baglau. Yr oeddwn yn dilyn fy ngalwedigaeth mewn naw diwrnod, yr hyn ni wnaethum er ys pum' mlynedd ar ugain. Cefais berffaith wellhad. Llwyddiant a hir oes i chwi wella cleifion o bob rhyw.

Yr eiddoch yn serchus,

Dr. J. L. Prichard.

JAMES BEVAN.

Deng mlynedd yn ol daeth boneddiges o Brynmawr, sir Frycheiniog, ataf i gael gwellhad; dyoddefodd am ugain mlynedd gan wynegon, poen yn y cefn, a gwendid. Cafodd wellhad genyf mewn pythefnos.

—o—

TIC DOLOREUX, NEURALGIA, VERTIGO,
HURTWCHE, POEN YN Y PEN, GWYNEDB,
A'R DANNEDD.

BROADWAY, NEW YORK, AMERICA,

Mawrth 7 1870.

ANWYL SYR,—Dyoddefais am ugain mlynedd oddiwrth tic doloreux, neuralgia, vertigo, poen yn y pen, a thwrf a hurtwch, gwendid a nervousness; ac an-nhreuliad bwyd. Nis gallwn fwyta ond ychydig o unrhyw beth. Pan yn cerdded yr oeddwn fel dyn meddw. Nis gallwn gysgu, ac ambell ddydd nis gallwn gerdded na sefyll. Yr oeddwn wedi treio

pump-ar-ugain o feddygon, ac wylt hospital yn America cyn dyfod atoch chwi. Yr oedd y meddygon wedi tynu bron fy holl ddannedd; ond yr oedd poen ymsaethol ar hyd ochr fy ngwyneb, dannedd, talcen, aeliau, a'r pen, yn cynyddu yn ddyddiol. Pan ddaethum atoch chwi yr oedd y poenau yn angerddol. Am amryw flynyddau nis gallaswn gysgu noswaith yn llawn, ac nid oeddwn wedi eau fy llygaid am fisoeedd. Yr oedd y boen mor fawr fel nad allwn gysgu. Gosodasoch fi dan driniaeth y medical apparatus, a chymerais eich moddion, a dilynais eich cyfarwyddyd. Mewn llai na phedair awr ar ugain yr oeddwn yn rhydd oddiwrth boen, ac mewn tair wythnos yr oeddwn yn gwbl iach. Dyoddefais boen am ugain mlynedd. Cysgais y noswaith gyntaf wedi myned o dan eich triniaeth, ac mewn ychydig ddyddiau gallaswn fwyta a mwynhau ymborth. Cyngorodd rhai o'm cyfeillion yn America fi i fyned atoch i gael gwellhad. Darbyniwch y diolchgarwch gwresocaf am y gwellhad a gefais genych.

Yr eiddoch yn barchus,

Dr. J. L. Prichard.

MARY ANNE JUDSON.

Pum' mlynedd yn ol daeth boneddwr o Castellnedd, ger Abertawe, ataf i gael gwellhad: dyoddefodd am bymtheg mlynedd gan boen yn y pen a hurtwch; nid oedd ddiwrnod heb boen y deng mlynedd diweddaf: yr oedd mewn poen mawr ddydd a nos oddiwrth boen rheumatic yn ei wyneb ac ochr ei ben. Cafodd wellhad perffaith genyf mewn pump wythnos. Ni chafodd ddim poen wedi dyfod dan fy nhriniaeth i: gwnaeth y dogn cyntaf o'm moddion ddaioni iddo.

—o—

PARLYS (*PARALYSIS*), Y STROKE.

Daeth boneddwr o Bryste ataf i ymofyn cyngor ddeng mlynedd yn ol; yr oedd ei fraich ddehau a'i glun wedi eu parlysu, ac nis gallasai eu symud o

gwbl, ac yr oedd efe wedi colli ei leferydd. Treiodd amryw feddygon, yn nghyd â *galvanic machines*, ond ni wnaethant ddim daioni iddo. Gosodais ef dan driniaeth y medical apparatus, a rhoddais gyfferi a chyngchorion iddo, ac mewn amser byr gwellhawyd ef. Yr wyf wedi gwella llawer o bobl a barlyswyd yn ochrau eu gwynebau a'u gruddiau (*facial paralysis*).

—o—

CLEFYDAU Y SPINE A'I NIWEIDIAU, GWYR-IAD Y SPINE, A GWENDID, GWENDID Y BREICHLIAU A'R CLUNIAU, AC ANYSTWYTHDER Y CYMALAU.


Gallwn draethu gwelliannau rhyfeddol a wnaed drwy fy nhriniaeth i ar bersonau yn dyoddef oddiwrth anhwylderau y *spine*; rhai a'u cefnau yn tyfu allan, ac mewn poen, yn analluog i orwedd i lawr; ac ereill yn methu sefyll. Llawer o honynt yn methu cadw eu dwfr, ac ereill yn methu ei basio. Rhai o honynt wedi myned i'r cyflwr hwn drwy wendid, ereill drwy ergyd neu gwympr. Bu rhai o'r cyfryw a wellhëais yn cadw eu gwelyau am flynyddau, ereill yn methu cerdded oddieithr wrth ffyn baglau neu law-ffon, o herwydd cryndod a gwendid yn y cluniau, heb ddim teimlad na nerth ynddynt. Gallaf alw i gof gannoedd a wellhëais yn ystod y pedair blynedd ar ddeg diweddaf, ag oeddynt yn dyoddef megis ag y dywedais. Daeth llawer o honynt gannoedd o filldiroedd o ffordd ataf i gael eu gwella, o'r baban ar y fron hyd at yr henwr pedwar ugain oed.

—o—

CANCR.

Y mae llawer math o cancer, megis y *schirrus* neu'r *carcinoma*, melanotic, *epithelial*, *colloid*, *haematoïd*, *cystic*, *osteoid*, *villous*, &c., &c. Ni ymosoda rhai mathau o cancer oddieithr ar ranau neillduol o'r corff tra y;

mae mathu ereill yn ymosod ar bob rhan o'r corff, yr ermigau bywydol mewnol yn ogystal a'r rhanau allanol. Yr wyf wedi agor rhif fawr o bobl fuont feirw yn yr hospitals yn Lloegr a Ffrainc, a chanfyddais ganer yn yr ysgyfaint, yr afu, y cylla, &c., &c. Gwelais ddynion wedi dirywio drwy ganer hyd gyflwr ysgerbwed. Y mae rhai mathau o ganer yn feddyginaethol, os trinir hwynt yn brydlawn. Cynghorwn y rhai a ddyoddefant oddiwrth ganer, a fwriadant ddyfod ataf fi am gynghor, i ddyfod yn ddioedi.



ANHWYLDERAU YR ERMIGAU DYFROL, STRICTURE, CLEFYDAU YR ARENAU, DIABETES, ANHWYLDERAU O NATUR DDIRGEL.

Gwellhëais filoedd o bersonau o'r anhwyldera uchod, ac y mae genyf nifer mawr o dan fy ngofal yn barhaus ag ydynt yn dyoddef oddiwrthynt; bu rhai o honi nt yn dyoddef am flynyddau boenau angerddol a gresynus; llawer o bersonau felly, o herwydd natur ddirgel eu hanhwylderau, a dreiasant Gwacs sydd yn hysbysu yn mhapyrau Llundain; ond byddai yn llawer doethach iddynt ddyfod ar unwaith at Ddoctor Meddyginaeth cyfreithlawn, Phisygwr a Llawfeddyg (Physician a Surgeon). Yr oedd y personau hyny a ddeuent ataf i gael gwellhad, yn gwaethygu yn ddyddiol; dyoddefent boen a gresyndod am flynyddau mewn cyflwr truenus; poen a hurtwch yn y pen—poen yn y cefn, iselder ysbryd, gwendid y giau, a gwendid cynyddol; ond drwy gymeryd fy nghyfferi i, a dilyn fy nghyfarwyddiadau, yr wyf yn eu gwella mewn amser byr, a rhai o honi nt mewn ychydig ddyddiau. Yr oedd yn rhaid i mi fyned drwy archwiliad yn y clefydau hyn (sef clefydau o natur ddirgel), cyn y gellais lwyddo i gail fy Ngradd o Ddoctor Meddyginaeth, a'r Diplomas o Physician a Surgeon.

LLEWYTHON (*Fits*), LLESMEIRGLWYF (*Epilepsy*), Y FAMOG (*Hysterics*), DAWNS ST. VITUS.

Y mae gwahanol fathau o *fits*. Gwellheias bobl o'r ddau rhyw 20 mlynedd yn ol, ac nid ydynt wedi cael fit oddiar pan wellheais hwynt.

Yn 1870 daeth boneddiges o Worcester, Lloegr, ataf i gael cyngor. Bu yn dyoddef am 15 mlynedd oddiwrth *lewygon* a *hysteric fits*; hefyd oddiwrth *nervousness*, iselder ysbryd, gwendid, gwynt, poen yn y pen, cur y galon, cof drwg—ni allai gofio yr hyn a ddygwyddodd ddeg diwrnod yn ol. Ni chafodd un fit oddiar pan gafodd fy moddion a'm cyngor.

Yn 1870 daeth ffermwyr o'r Gelli, ger Talgarth, Brycheiniog, ataf i gael *advice*. Bu yn dyoddef am 20 mlynedd oddiwrth *Epileptic Fits*, y rhai a'i gwnant yn swrth a chysglyd. Ni chafodd un fit wedi cymeryd fy moddion.

ST. VITUS'S DANCE.

Tair blynedd yn ol daeth merch ieuanc ataf i gael advice. Nid oedd un cymal o'i chorff yn llonydd. Yr oedd ei breichiau, cluniau, a'i phen, a'r gwaith yn barhaus. Nid oedd yn gallu dodi bwyd yn ei phen. Nid oedd yn gallu siarad na cherdded. Yr oedd wedi treio amryw o ddoctoriaid, ond yr oedd yn gweithygu bob dydd. Cafodd feddyginaethau genyf. Cafodd wellhad perffaith mewn pythefnos.

Yr wyf wedi gwella canoedd o fechgyn a merched o St. Vitus's Dance mewn wythnos; ni fethais erioed i'w gwella hwy.

CHWYDDIADAU (CLWYFAU), DYMCHWYDDIADAU, PLORYNAU, ARCHOLLION, TARDDIADAU, ETC.

Dygir hwynt yn mlaen drwy ddamweiniau a niweidiau, anmhuredd y gwaed, ac amryw achosion ereill. Yr wyf wedi gwella canoedd o bobl bu rhai o honynyt yn dyoddef am flynyddau oddiwrth tarddiant a chlwyfau.

WELLINGTON TERRACE, CAERDYDD, *Mawrth 4, 1871.*

ANWYL SYR,—Dyoddefais am flynyddau oddiwrth ddolur yr afu, poen yn y pen a hurtwch, gwynt, diffyg treuliad bwyd, gwendid y stumog, blas cas yn y pen yn y boreu, a phlegm; yn fynych curiad y galon, *nervousness, a'r bile.* Ar rai amserau teimlwn iselder ysbryd; nid oedd genyf galon na nerth. Teimlwn yn flin a gwan ar ol pob gwaith. Yr oedd y cof yn wan, a dyoddefwn boen a gwendid rhwng yr ysgwyddau, cefn, a'r cluniau, a gwendid cyn ac wedi bwyta bwyd. Dyoddefwn gan y *piles a'r gravel,* hurtwch yn y pen, a swn yn y clustiau. Yr oedd pob stwr a *start* yn peri ofn: meddyliau a breuddwydion cas ac ofnus; yr oeddwn mewn cyflwr truenus. Yr oeddwn wedi treio doctoriaid yn Llundain, ond yn gwbl ofer. Gosodasoch fi dan eich *medical apparatus,* cymerais y moddion a gefais genych adref gyda mi, a dilynais eich *advice.* Cefais wellhad perffaith mewn ychydig amser.

Yr eiddoch yn ddiolchgar,
Dr. J. L. Prichard. HANNAH WILLIAMS.

COMMERCIAL STREET, PONTYPOOL, *Mai 6, 1871.*

ANWYL SYR,—Ar ol dyoddef am flynyddau, a threio llawer hospital, cynghorwyd fi gan lawer ag oeddynt wedi cael gwellhad genych, i fyned atoch chwi a chael gwellhad. Yr oedd peswch arnaf, a diffyg anadl, yn enwedig wrth gerdded tyle. Yr oeddwn ar amserau yn peori phlem, ac ni allwn orwedd yn y gwely, ond gor fod eistedd a chlustogau dan fy mhen. Yr oedd y stumog at fwyd yn wan, a gwendid yn y stumog; yn fynych gwynt a llawndid yn y stumog a'r ymysgaroedd, poen yn y pen, gwendid, a phoen yn y cefn a rhwng yr ysgwyddau, ac yn fynych poen a gwendid yn y cluniau. Dyoddefais oddiwrth *bronchitis.* Yr wyf wedi cael iechyd perffaith oddiar pan wellhaoch fi, chwe' mlynedd yn ol. Cynghorwn bob un sydd yn dyoddef poen neu ddolur, i fyned atoch chwi i gael gwellhad. Yy wyf wedi gweled, ac yn gwybod am ganoedd, sydd wedi cael gwellhad genych chwi, pan oeddent wedi ffaelu cael gwellhad yn mhob man arall.

Yr eiddoch yn ffyddlon,
Dr. J. L. Prichard. DAVID DAVIES.

Yn 1871 daeth boneddiges o Dalgarth, Sir Frycheiniog, ataf i gael *advice*. Dyoddefodd am flynyddau gan ddiffyg treuliad bwyd, gwynt yn y stumog, poen rhwng yr ysgwyddau a'r cefn, iselder ysbryd, *nervousness*, poen yn y pen, a llawndid yr ymysgaroedd. Yr oedd pob stwr neu *start* yn ei haflonyddu, ac yn ei gwaelu. Cymerodd *advice* a moddion genyf. Cafodd wellhad mewn amser byr.

Yn 1871 daeth dyn ataf o Grumlyn, Sir Fynwy, i gael *advice*. Dyoddefodd am flynyddau gan ddiffyg anadl, peswch, gwendid, dim archwaeth at fwyd, colli cnawd, dim yn cysgu yn dda y nos, gwendid y cluniau, a hurtwch. Ni allasai gerdded dim heb fogi a gwaelu. Cafodd wellhad perffaith mewn amser byr.

Yn 1871 daeth dyn o Abertawe, Sir Forganwg, ataf i gael *advice*. Dyoddefodd am flynyddau gan *lumbago*, poen a gwendid yn y cefn a'r lwynau, *piles a gravel*. Dyoddefodd gan *rheumatic* poen, chwydd, a stiffni yn ei arddwrn, penelin, ysgwyddau, hips penliniau, swrnau, a'r traed. Ni allasai wisgo ei hunan, na cherdded heb boen. Cafodd wellhad mewn wythnos.

Yn 1871 daeth boneddiges o Gaerfyddin, Sir Gaerfyddin, ataf i gael *advice*. Bu yn fyddar am flynyddau; ni allasai glywed y pregethwr o'r pwlpud. Yr oedd yn fwy byddar pan gaffai anwyd; hefyd mwstwr a stwr yn y pen a'r clustiau. Cafodd wellhad perffaith genyf. Mewn ychydig ddyddiau yr oedd yn clywed y watch bum' llath o bellter.

Yn 1871 daeth dyn o Ross, Sir Henffordd, Lloegr, ataf i gael *advice*. Bu yo dywyll am flynyddau. Yr oedd wedi treio amryw Hospitals cyn dyfod ataf. Defnyddiodd y meddyginaethau a gafodd genyf. Yr oedd yn gallu darllen y papyr newydd mewn wythnos.

Yn 1871 daeth dyn o Lanbedr, Sir Aberteifi, ataf i gael *advice*. Dyoddefodd am flynyddau gan stiffni a phoen yn *joint* yr hip a'r penlin. Yr oedd yn gloff. Cymerodd fy meddyginaethau, a chafodd wellhad mewn pythefnos.

Yn 1871 daeth dyn o Taunton Gwlad yr Haf, Lloegr, ataf i gael gwellhad. Dyoddefodd am flynyddau gan ddiffyg gwneud dwfr, poen a gwendid yn y cefn a'r cluniau. Hefyd dolur y *spine*, ac yn fynych cryndod yn y cluniau ar breichiau. Cafodd wellhad mewn pythefnos.

Cynchorwn bob un sydd yn dyfod ataf i gael *advice*, i ddyfod a photelaid fechan o'r dwfr cyntaf y bore gyda hwynt, neu ei anfon.

Cynghorwn y personau hyn y a fwriadant ddyfod ataf fi, i ddyfod heb oedi, o herwydd pa hwyaf yr esgeulusir clefydau gwaethaf oll yr ânt.

Gan fod llawer o bersonau yn anfon i ymholi, A ydyw Dr. Prichard yn parhau i feddyginaethu? Y mae efe yn barod i ateb unrhyw lythyron; ond y mae yn rhaid i'r ysgrifenydd anfon *envelope* gyfeiriedig a *stamp* yn ei lythyr.

—o—

CONSULTATIONS.

Dr. J. L. Prichard may be consulted at home every week-day—Sundays (morning only)—65, High-street, Merthyr Tydfil, Glamorganshire.

The greater number of patients need not make more than one visit to me to be cured. They can come by one train, and return home by the next train. Patients under my treatment and advice, can follow their employment as usual.

Dr. Prichard's treatment is recommended as a cure for the uncured. Persons who have failed to have a cure by other treatments, are advised to come or send without delay to Dr. J. L. Prichard, because he has cured thousands of people, and is curing people daily, after every other treatment had failed.

Patients come hundreds of miles to me to be cured by my treatment. I am curing people every day by my treatment.

—o—

YMGYNGHORIAID.

Gellir ymgynghori â Dr J. L. Prichard yn ei dŷ bob dydd o'r wythnos—ar y Sabbath (y boreu yn unig)—65, High Street, Merthyr Tydfil, Glamorganshire.

Ni raid i'r nifer mwyaf o gleifion ddyfod ataf fwy nag unwaith, I gael gwellhad perffaith.

Os deuant ataf gyda'r trê, gallant ddychwelyd adref yr un diwrnod, gyda'r trê nesaf. Gall y rhai fyddont dan fy nhriniaeth ddilyn eu galwedig aeth fel afer.

Cynghorir triniaeth Dr. Prichard i sylw pawb ag ydynt wedi methu cael gwellhad gan feddygon ereill, neu anfon ato yn ddioed, canys y mae wedi gwella miloedd o bobl. Y mae cleifion yn dyfod ataf ganoedd o filldiroedd o belloder, i gael gwellhad drwy fy nhriniaeth.

INDEX OF DISEASES (CYNWYSEB)

Cured by Dr. Prichard's Treatment.

ASTHMA—(Diffyg anadl).

BRONCHITIS—(Gwddf-enyniad).

COUGH—(Pesweh).

SHORTNESS OF BREATH—(Byrdra anadl).

DIFFICULTY OF BREATHING—(Anhawsder i anadlu).

CONSUMPTION OR DECLINE—(Y darfoded-igaeth).

PLEURISY.

DISEASE OF THE LUNGS—(Doluriau yr ysgyfaint).

DISEASE OF THE CHEST—(Doluriau y ddwyfron).

SPITTING OF BLOOD—(Poeri gwaed).

WEN.

DISEASES OF THE HEART—(Doluriau y galon).

PALPITATION OF THE HEART—(Curiad y galon).

LOSS OF APPETITE—(Diffyg archwaeth at fwyd).

DISEASES OF THE STOMACH—(Doluriau y cylla).

INDIGESTION—(Diffyg treuliad bwyd).

LOWNESS OF SPIRITS—(Iseldra ysbryd).

NERVOUSNESS—(Anhwyladerau y gïau).

NERVOUS DEBILITY—(Gwendid y gïau).

VENEREAL DISEASE—(Y clefyd drwg).

BLOOD, DISEASED—(Gwaed afiach).

LOSS OF SLEEP—(Coll cwsg).

LOSS OF MEMORY—(Colled y cof).

MELANCHOLY—(Iseldra meddw1).

DISEASES OF THE LIVER—(Doluriau yr afu).

FLATULENCY—(Gwynt).

PAIN IN THE SIDES—(Poen yn yr ochrau).

” ” CHEST— ” y chest).

” ” BACK— ” y cefn).

” ” HEAD— ” y pen).

” ” TEETH— ” y dannedd).

” ” STOMACH— ” y cylla).

” ” LIMBS— ” yr aelodau).

” ” FACE— ” y gwyneb).

” ” LOINS— ” y lwynau).

DISCHARGES IN MEN AND WOMEN.

- PAIN IN THE JOINTS—(Poen yn y cymalau).
BOWELS—(Poen yn y mysgaroedd).
LIVER COMPLAINT—(Afiechyd yr afu).
JAUNDICE—(Y clefyd melyn).
SLUGGISHNESS OF THE LIVER.
DROPSY.
KING'S EVIL—(Clefyd y brenin).
SCROFULA—(Y manwynion).
SCURVY.
DISEASES OF THE SKIN AND FACE.
ERUPTIONS ON THE SKIN AND FACE—
(Tarddiant ar y croen).
WEAKNESS OF THE BACK—(Gwendid y cefn).
LUMBAGO.
PILES.
GRAVEL.
DISEASE OF THE KIDNEYS—(Doluriau yr arenau).
SCIATICA.
RHEUMATISM—(Y gwynegon).
RHEUMATIC FEVER.
TIC DOLOREUX.
NEURALGIA.
HEADACHE—(Poen yn y pen).
VERTIGO—(Hurtwch).
NOISE IN THE HEAD—(Swn yn y pen).
EARS—(Swn yn y glust).
GI'DDINESS IN THE HEAD—(Y ddot yn y pen).
DISEASES OF THE EYE—(Doluriau y llygad).
DIMNESS OF SIGHT—(Gwendid y golwg).
BLINDNESS—(Dallineb).
DEAFNESS—(Byddardod).
INFLAMMATION—(Enyniad).
CATARACT—*see* BLINDNESS.
GLAUCOMA—Ditto.
AMAUROSIS—Ditto.
DISCHARGE FROM THE EARS—(Tarddiant o'r clustiau).
POLYPUS IN THE NOSE AND EARS.

PAINS IN THE EARS—(Poen yn y clustiau).

PARALYSIS—(Parlys).

FACIAL PARALYSIS—(Parlys y gwyneb).

PARALYTIC STROKE—(Ergyd parlysol).

PARALYSIS OF ARMS—(Parlys yn y breichiau).
 LEGS—(Parlys yn y cluniau).

HEMIPLEGIA—(Loss of power of arm and leg of one side).

PARAPLEGIA—(Loss of power of both legs).

DISEASE OF THE SPINE—(Clefyd yr yspin).

SPINAL CURVATURES—(Crymiad yr yspin).

SPINAL WEAKNESS—(Gwendid yr yspin).

WEAKNESS AND PAIN OF ARMS AND LEGS
—(Gwendid a phoen yn y breichiau a'r cluniau).

PRIVATE DISEASES—(Clefydau dirgel).

CANCER—(Cancer).

DIABETES—(Troethglwyf).

ST. VITUS' DANCE.

SPRAINS—(Ysigiadau).

URINARY OBSTRUCTIONS—(Dwfrataliad).
 DISEASES.

SECRET DISEASES—(Clefydau dirgel).

SECONDARY SYMPTOMS—(Arwyddion eil-raddol).

STRICTURE—(Dirdyniod).

STIFF JOINTS—(Cymalau anystwyth).

DISEASED JOINTS—(Cymalau clwyfus).

SWELLED JOINTS—(Cymalau chwyddedig).

PAINFUL JOINTS—(Cymalau poenus).

WHITE SWELLING—(Chwydd gwyn).

GOUT.

RHEUMATIC GOUT.

TUMOURS—(Dymchwyddiadau).

SWELLINGS—(Chwyddiadau).

ABSCESSSES—(Plorynau).

URINE, IN DISEASES.

PAINS IN TEETH, FACE, AND TEMPLES—
(Poen yn y dannedd, pen, a'r gwyneb).

- WOUNDS—(Clwyfau).
ULCERS—(Clwyfau).
FITS—(Llewygon).
EPILEPSY—(Llesmeirglwyf).
HYSTERICS—(Y famog).
DISEASES OF BONES—(Anhwylderau yr esgyrn).
INJURIES OF BONES—(Niweidiau yr esgyrn).
SPRAINS OF JOINTS.
THROAT, SORE, AND SWELLINGS OF—(Llwnc
LOSS OF VOICE—(Crygny). [tost].
BREAST, SWELLINGS AND WOUNDS OF.
COSTIVENESS—(Rhwymedd).
DIARRHEA—(Rhyddni).
DYSENTERY.
DYSPEPSIA—(Diffyg treuliau bwyd).
FEMALE IRREGULARITIES — (Anhwylderau
menywod).
FISTULA, PILES.
GLEET—(Clefyd dirgel).
GONORRHEA—(Y clap).
HEARTBURN—(Dwfr poeth).
ITCH—(Y crafu).
INSANITY—(Gwallgofrwydd).
KNEE, STIFF AND SWELLED—(Chwydd a phoen
yn y penlin).
SWELLINGS—(Chwyddiadau).
NUMBNESS, LOSS OF SENSATION—(Dideim-
ladrwydd).
PAIN, RELIEF OF—(Rhyddhad o boen).
SPERMATORRHEA.
SYPHILIS—(Y clefyd drwg).
STRICTURE—(Cyfyngder gwneud dwfr).
TESTICLE, PAIN AND SWELLING.
WOMB, DISEASES OF—(Doluriau y groth).
INFANTILE PARALYSIS.
CANCER OF THE BREAST—(Caner yn y fron).
LEGS AND ARMS, WEAKNESS, SWELLED
SORE—(Cluniau a breichiau, gwendid, chwydd
a phoen).

P
35

66



Folds to
middle of
pages

24ColorCard www.cameras-test.com

